**Rhif Eitem Agenda: 3.1.1**

# Cofnodion Cyfarfod "Mewn Pwyllgor" Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a gynhaliwyd ddydd Iau 24 Tachwedd 2022 fel Cyfarfod Rhithiol a Ddarlledwyd yn Fyw drwy Microsoft Teams

| **Aelodau'n Bresennol:** | |
|---|---|
| Emrys Elias | Cadeirydd |
| Paul Mears | Prif Weithredwr |
| Jayne Sadgrove | Is-gadeirydd |
| Ian Wells | Aelod Annibynnol |
| Nicola Milligan | Aelod Annibynnol |
| James Hehir | Aelod Annibynnol |
| Carolyn Donoghue | Aelod Annibynnol |
| Patsy Roseblade | Aelod Annibynnol |
| Dilys Jouvenat | Aelod Annibynnol |
| Mel Jehu | Aelod Annibynnol |
| Linda Prosser | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid |
| Gethin Hughes | Prif Swyddog Gweithredu |
| Sally May | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |
| Hywel Daniel | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl |

| **Hefyd yn bresennol:** | |
|---|---|
| Cally Hamblyn | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg |
| Stuart Morris | Cyfarwyddwr Digidol |
| Debbie Bennion | Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio |
| Sallie Davies | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol |
| Wendy Penrhyn-Jones | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Busnes y Bwrdd |
| Emma Walters | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth) |

**Eitem ar yr Agenda**

**1** **MATERION RHAGARWEINIOL**

**1.1** **Croeso a Chyflwyniadau**

**Croesawodd** y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1.2** **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth:

- Greg Dix, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
- Dom Hurford, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
- Lauren Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd

**1.3** **Datgan Buddiannau**

Mewn perthynas â'r drafodaeth a oedd yn cael ei chynnal mewn perthynas â Gweithredu Diwydiannol dan 'Unrhyw Fater Arall', datganodd N Milligan ei rôl fel Aelod o'r Coleg Nyrsio Brenhinol.

Heb eu cadarnhau

**2. Y BRIF AGENDA**

**2.1 Statws Cyfranogwr Craidd ar gyfer Modiwl 3 Ymchwiliad Covid-19**

Rhannodd C Hamblyn gyflwyniad gyda'r Aelodau yn amlinellu'r ystyriaethau ar gyfer gwneud cais am Statws Cyfranogwr Craidd ar gyfer Modiwl 3 Ymchwiliad Covid-19.

Yn dilyn trafodaeth, gwnaeth y Bwrdd y penderfyniadau canlynol:

Penderfyniad:

- **CYMERADWYODD** y Bwrdd y penderfyniad **NA** fyddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gwneud cais am Statws Cyfranogwr Craidd **UNIGOL**;
- **CYMERADWYODD** y Bwrdd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ymuno â'r grŵp hwn petai awydd yn GIG Cymru am Statws Cyfranogwr Craidd Grŵp, yn amodol ar lywodraethu cadarn a goruchwyliaeth gyfreithiol;
- **CYMERADWYODD** y Bwrdd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn rhoi gwybod i'w dîm cyfreithiol erbyn 28ain Tachwedd os bydd Cais Grŵp am Statws Cyfranogwr Craidd yn mynd rhagddo, gan gytuno i'r wybodaeth hon gael ei rhannu'n fewnol yn Nhîm Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru er mwyn hwyluso trefniadau o'r fath i gefnogi cais ar y cyd;
- Penderfynodd y Bwrdd **NODI** mai'r sefyllfa ddiofyn, os na chyflwynir unrhyw gais neu os caiff ei gymeradwyo wedyn gan Gadeirydd yr Ymchwiliad, yw y bydd y Bwrdd Iechyd yn symud ymlaen heb Statws Cyfranogwr Craidd.
- Penderfynodd y Bwrdd **NODI** y bydd y Bwrdd Iechyd yn dal i gadw ei Gynghorwyr Cyfreithiol ei hun, sy'n cynnwys Uwch Gwnsleriaid a Chwnsleriaid Iau (o Res Swyddfa'r Goron) a Chynghorwyr Cyfreithiol dynodedig o Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Heb ei Cadarnhau

**3. UNRHYW FATER ARALL**

**3.1 Unrhyw Faterion Brys Eraill**

Cyflwynodd L Prosser adroddiad ar y Cynllun Gweithredu Diwydiannol arfaethedig a oedd yn cael ei gynllunio gan Goleg Brenhinol y Nyrsys a'r pleidleisiau a oedd yn cael eu cynnal gan Undebau eraill ymysg eu haelodau.

Yn dilyn trafodaeth, nododd yr Aelodau fod cynlluniau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith mewn nifer o feysydd y byddai angen eu hasesu a'u rheoli o ran risg drwy strwythurau'r Grŵp Rheoli Aur, Arian ac Efydd, er mwyn lliniaru'r risgiau i gleifion, darparu gwasanaethau a staff yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol.

Penderfyniad:

Fe wnaeth y Pwyllgor **NODI**'r adroddiad.

## 4. DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Iau 26 Ionawr 2023 am 10am.

Heb eu cadarnhau